

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU  
(Arolygiadau Safle)**

**7 Chwefror 2022**

Yn bresennol: Dr M Havard (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair yn Herbrandston); Cynghorydd R Owens (Cadeirydd yn Niwglwl) Cynghorydd Mrs D Clements (Niwglwl yn unig), Cynghorydd P Harries, Cynghorydd M James, Mr GA Jones (Niwglwl yn unig), Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd M Williams.

Swyddogion yn bresennol: Mrs N Gandy, Mr M Higgins (Herbrandston yn unig), Ms S Tyler (Niwglwl yn unig), Mrs C Llewellyn (Cofnodion).

(Arolwg Safle: Herbrandston 10.00 am – 10.40 am; Niwglwl 11.30 am – 11.50 am)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

**2. NP/21/0591/TPO – Gwaith i'r coed yn TPO133 – Tir yn Heol Middlekilns, Herbrandston**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr ymweliadau y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswngu â safleoedd y ceisiadau a'r ardal o'u cwmpas. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r ceisiadau cynllunio gael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y ddau gais wedi cael eu hystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y 26ain o Ionawr 2022 pan gafodd y ddau eu gohirio i ganiatáu i arolwg safle gael ei gynnal.

Dywedwyd bod TPO133 yn ymwneud ag ardal o goetir oedd yn cynnwys odyngalch restredig Gradd II y credir iddi gael ei hadeiladu tua 1800, yn ogystal â waliau a strwythurau eraill o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd nad oedd yn ymddangos yn rhan o'r rhestriad uniongyrchol. Roedd y cais yn ceisio gwaredu neu docio gwahanol goed, rhai ohonynt yn tyfu'n uniongyrchol o waith carreg yr odyngalch.

Gofynnwyd i'r Swyddog Coed a Thirweddau roi rhywfaint o gyd-destun i'r cais, ac eglurodd, yn dilyn gwerthu'r coetir, bod y Cyngor Cymuned wedi mynegi pryderon am ddyfodol y coetir, ac aseswyd yn 2017 bod y coetir



yn addas ar gyfer dynodiad Gorchymyn Diogelu Coed (TPO). Y cais oedd gerbron y Pwyllgor yn awr oedd cais ar gyfer rheoli'r coetir, a bernid bod cyfiawnhad dros gael gwared ar rai o'r coed gan fod eu cadw yn niweidiol i warchod yr odyn galch restredig. Roedd y coed eraill yn goed aflwyddiannus, a gellid dehongli bod eu gwaredu yn bodloni eithrio coed Marw, coed oedd yn Marw a choed Peryglus, oedd yn golygu nad oedd angen caniatâd i waredu'r coed hyn. Fodd bynnag, nid oedd cyfiawnhad dros gael gwared ar goed eraill ar hyn o bryd o ran rheoli'r coetir nac am resymau iechyd a diogelwch. Yr argymhelliad felly oedd caniatáu a gwrthod yn rhannol yn amodol ar amseriad y gwaith, a hefyd yn amodol ar gael datganiad am y dull o wneud y gwaith o amgylch yr odyn galch; byddai'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau yn ffurfio templed ar gyfer hyn.

Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'r gosb pe gwaredir coed heblaw'r coed y caniateir iddynt gael eu gwaredu, a dywedodd y swyddog bod canllawiau llym yn rheoli'r Gorchymynion Diogelu Coed, a bod gwaredu coed TPO yn drosedd ac y byddai'r Awdurdod yn ceisio dilyn y mater drwy'r llysoedd.

Yna cerddodd y Pwyllgor o amgylch y safle, a dywedwyd ei bod yn anghyffredin yn Sir Benfro i goedlan fod mor agos i'r aber a bod y bioamrywiaeth gyfoethog yn ganlyniad i'r ffaith bod y coetir heb gael ei reoli yn y blynyddoedd diweddar. Hefyd nodwyd lleoliad y coed oedd yn tyfu allan o'r odyn galch, ac eglurodd y swyddog bod y dynodiad Cenedlaethol gan Cadw yn cael blaenoriaeth dros y Gorchymyn Diogelu Coed a ddynodwyd ar lefel Awdurdod.

Yna gohiriodd y Cadeirydd yr ymweliad safle er mwyn teithio ymlaen i'r safle nesaf.

**3. NP/21/0133/FUL - Ailadeiladu, codi lefel y llawr ac uchder y to a mynedfa arall i'r anabl i ffrynt a chefn yr adeilad (rhannol ôl-weithredol) - Sands Cafe, Niwglwl**

Dywedwyd bod y cais hwn i ailadeiladu ac ailfodelu'r adeilad hwn yn cynnwys codi uchder y lloriau a chrib y to (rhannol ôl-weithredol) yn ogystal â newidiadau i'r mynediadau a'r mynedfeydd, ffenestri, gorffeniadau allanol, ychwanegu ffenestri to, awyrellau mecanyddol a chanopi cefn. Hefyd ehangu'r ardaloedd eistedd allanol i gwsmeriaid.

Yn y cyfarfod ar 26 Ionawr, eglurodd y swyddog bod caniatâd cynllunio ar gyfer ailfodelu'r caffi wedi ei roi yn 2018 (y sefyllfa wrth gefn) ar gyfer cynllun tebyg i'r cais oedd gerbron y Pwyllgor, ond nid oedd wedi'i adeiladu yn unol â'r cynlluniau ac felly roedd y cais presennol yn ceisio rheoleiddio'r datblygiad a gwneud diwygiadau o ran trefniadau mynediad cynhwysol. Y prif fater oedd yn peri pryder oedd codi lefel y slabiau tua 0.5m, gan arwain at gynnydd yn lefel uchder crib yr eiddo ychydig dros



0.5m. Roedd hyn wedi cysgodi ffenestr yr eiddo cyfagos. Roedd swyddogion wedi nodi bod yr ystafell a wasanaethir gan y ffenestr yn wynebu dau gyfeiriad, gyda drysau Ffrengig yn y cefn, a dywedwyd wrth yr Aelodau mai mater iddynt hwy oedd penderfynu a oedd y lefel hon o gysgodi yn dderbyniol. Roeddent felly wedi penderfynu ymweld â'r safle.

Dyweddodd y swyddog bod dau luniad ychwanegol wedi dod i law ers y cyfarfod o'r Pwyllgor, gyda'r cyntaf yn rhoi rhagor o fanylion am y trawst ar grib yr adeilad ac yn dangos y disgwylir i linell y to gorffenedig fod tua 15cm yn uwch na'r fframwaith dur sydd i'w weld ar hyn o bryd ar y safle. Roedd yr ail luniad yn dangos y cysgod disgwylidig o'r adeilad arfaethedig ar ffenestr yr eiddo cyfagos dan sylw.

Nid oedd modd i'r Aelodau fynd i mewn i'r safle oherwydd gofynion iechyd a diogelwch, felly cawsant olwg ar y strwythur a'i effaith ar y ffenestr dan sylw o'r palmant. Tynnwyd sylw at leoliad y drysau patio yn y cefn, a nodwyd bod y pellter rhwng y ddau adeilad yn 1.27m.

Gan ddiolch i bawb am ddod, daeth y Cadeirydd â'r arolwg safle i ben.

